

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgarwch yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 21 Mai 2018. Caiff ei ddarparu er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall.

Cyfarwyddiadau ar gyfer llenwi

Mae croeso i'r Cyngorwyr roi cymaint neu cyn lleied o wybodaeth ag y maent yn ei ddymuno o dan bob adran, fodd bynnag rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (fel uchafswm).

Y Cynghorydd: David A Bithell

Plaid: Annibynnol

WARD: Johnstown

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau canlynol (ffigyrau presenoldeb wedi'u darparu gan CBSW):

1. Bwrdd Gweithredol (Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant)
2. Ymddiriedolaethau Corfforaethol y Bwrdd Gweithredol
3. Is-grŵp y Bwrdd Gweithredol (Deddf Delwyr Metel Sgrap)
4. Arweinydd Grŵp Annibynnol Wreccsam
5. Gweithgor Cludiant Strategol
6. Cyngor Llawn
7. Panel Tâ a Gwobrwyo
8. Gweithgor Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol
9. Cadeirydd Partneriaeth Rheilffordd Caer-Amwythig
10. Aelod o Grŵp Rheilffordd Strategol Swydd Amwythig, Telford a Wrekin
11. Cyngorhairs Mersi / Dyfrdwy
12. Cadeirydd y Grŵp Cludiant Ymgynghorol (Bwrdd Uchelgais)
13. Asiantaeth Cefnfyrd y Gogledd a'r Canolbarth
14. Aelod APSE y Cyngor

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau allanol canlynol (ffigyrau presenoldeb wedi'u darparu gan y Cyngorydd):

1. Cyngor Cymuned Rhos (Ward Johnstown)
2. Pwyllgor Rheoli Canolfan Adnoddau Johnstown
3. Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol yr Hafod, Johnstown
4. Cyd-gadeirydd Grŵp Cyswllt Hafod

Adran 2: Gweithgaredd yn fy Etholaeth

1. Cynhyrchu newyddlen ddwywaith y flwyddyn er mwyn rhoi gwybod i breswylwyr am weithgareddau a manylion cyswllt lleol.
2. Gweithio'n ddyddiol ar nifer fawr o faterion yn fy etholaeth sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o bynciau a gweithgareddau.
3. Wedi gweithio gyda'r Adran Tai i gefnogi buddsoddiad cyfalaf yn Johnstown er mwyn codi safon tai i lefel Ansawdd Tai Cymru. Mae hyn wedi bod yn waith arwyddocaol dros y 12 mis

diwethaf.

4. Wedi cefnogi rhagor o gynlluniau parcio oddi ar y ffordd
5. Gweithio gyda Swyddogion Priffyrdd ar Orchmynion Traffig newydd yn Bangor Road, High Street a Moreton Street yn dilyn pryderon am barcio anystyriol.
6. Fel rhan o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Johnstown rwyf wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Cymuned Rhos i sicrhau cyllid ar gyfer defnydd parhaus a throsglwyddiad yr ased.
7. Rwyf wedi bod mewn cyswllt â'r swyddog Llifogydd yn dilyn pryderon y byddai dŵr yn gorlifo i eiddo o ganlyniad i geuffos wedi blocio ar dir preifat.
8. Fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol yr Hafod rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'r Uwch Dim Rheoli

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

1. Rwyf wedi gweithio gyda phlant Ysgol yr Hafod fel rhan o'u prosiect ECO ac wedi trefnu iddynt ymweld â'r Safle Ailgylchu Gwastraff er mwyn cael gweld sut mae ailgylchu'n gweithio. Mi wnaethant hefyd ddylunio poster dim baw cŵn y gwnes i wedyn drefnu iddo gael ei wneud yn boster.
2. Gweithiais gyda phreswlydd lleol i ddechrau ymgyrch i godi arian ar gyfer Cloc y Stiwt a gofynnais i Gyngor Cymuned Rhos gefnogi'r ymgyrch gyda rhodd o £2,500 i'n helpu i gyrraedd y cyfanswm o £10k

Adran 4: Dysgu a Datblygu

1. Mynychu sesiynau hyfforddi a ddarperir gan y cyngor yn ogystal â nifer o weithdai ar mrywiol bynciau yn ystod y flwyddyn galendr.
2. Rwyf hefyd wedi mynychu Hyfforddiant Cyfryngau yn fy rôl fel Aelod Arweiniol.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

1. Fel Aelod Arweiniol rwy'n gyfrifol am arwain portffolio'r Amgylchedd a Chludiant.
2. Fi yw'r llefarydd gwleidyddol yn fy maes o gyfrifoldeb ac rwy'n paratoi ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol. Fel Arweinydd Grŵp Annibynnol Wrecsam, rwy'n cyfarfod bob mis gyda'r Prif Weithredwr a swyddogion y Cyngor i sicrhau bod aelodau'r grŵp yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol a chodi unrhyw feysydd penodol o bryder yn enwedig o ran materion cyllidebol sy'n effeithio ar yr etholwyr.
3. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd ag Aelodau Cynulliad Gogledd Cymru i drafod materion allweddol yn Llywodraeth Cymru a'r effaith y maent yn eu cael ar lywodraeth leol.
4. Gweithredu fel llefarydd ar ran Grŵp Annibynnol Wrecsam ar faterion allweddol yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol gan gynnwys ymateb i'r cyfryngau.
5. Mynychu Pwyllgorau Craffu er mwyn ateb cwestiynau am fy maes o gyfrifoldeb.

Llofnod y Cynghorydd: David A Bithell

Dyddiad: 22 Mehefin 2018